# Rolau'r Cyngor
# Gwrthdaro buddiannau: canllawiau i ymgeiswyr

1 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol ac yn elusen. Ein rôl yw rheoleiddio'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

2 Fel aelod o'r Cyngor, bydd angen i chi arddangos safonau moesegol uchel ac uniondeb, gan ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n hybu ymddiriedaeth a hyder yn yr NMC a rheoleiddio proffesiynol.

3 Fel rhan o'ch cais gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu bosibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i'r NMC. Mae hyn yn rhan bwysig o'ch cais am yr NMC; ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol sy'n craffu ar y broses ddethol rydym yn ei rhedeg er mwyn sicrhau ei bod yn gadarn; ac i'r Cyfrin Gyngor y mae angen sicrwydd arno ynghylch hyn cyn gwneud unrhyw benodiad i'r Cyngor.

4 Gwyddom nad yw bob amser yn hawdd nodi gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl. Mae'r nodyn canllaw hwn wedi'i ddatblygu i'ch helpu ac mae'n cynnwys enghreifftiau.

5 Gallai fod gennych wrthdaro buddiannau pe byddai unrhyw rai o'ch ymrwymiadau, rhwymedigaethau neu deyrngarwch i sefydliadau neu bobl eraill yn cael ei weld yn eich atal rhag cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor yn ddiduedd a gwneud penderfyniad er lles gorau'r NMC yn unig. Dylid datgan unrhyw wrthdaro a allai fod yn berthnasol i waith yr NMC.

6 Mae'n bwysig nodi os byddwch yn datgan gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro posibl, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer eich penodi. Mae rhai enghreifftiau o wrthdaro sy'n golygu na allech fod yn aelod o'r Cyngor ac ni fyddai'r Panel Dewis yn gallu symud eich cais yn ei flaen. Os credwn fod hyn yn wir, byddwn yn trafod hyn gyda chi i sicrhau ein bod yn deall y sefyllfa yn llawn cyn dod i unrhyw farn.

7 I'ch helpu, rydym wedi rhoi enghreifftiau o rai mathau gwahanol o wrthdaro ym **mlychau A a B isod.**

## Côd Ymddygiad y Cyngor

8 Disgwylir i aelod o'r Cyngor arddangos uniondeb a safonau moesegol uchel, fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor gan gynnwys saith egwyddor bywyd cyhoeddus. Mae'r Cod yn nodi y byddai gennych gyfrifoldeb i:

8.1 osgoi cael eich dylanwadu gan, neu osod eich hun dan rwymedigaeth i, unrhyw unigolyn neu sefydliad a allai effeithio, neu gael ei ganfod i effeithio, ar eich gallu i weithredu'n ddiduedd ac yn wrthrychol fel aelod o'r Cyngor;

8.2 datgan unrhyw fuddiannau proffesiynol neu bersonol a allai wrthdaro â'ch rôl fel aelod o'r Cyngor, neu y geelid canfod ei fod yn gwrthdaro â'ch rôl. Gallai hyn gynnwys datgan buddiannau aelodau'r teulu neu gymdeithion agos.

**Adnabod gwrthdaro buddiannau**

9 Mae’n bwysig eich bod yn ystyried eich amgylchiadau penodol eich hun wrth wneud cais i fod yn aelod o Gyngor yr NMC a nodi unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu unrhyw wrthdaro posibl.

10 Gall sefyllfaoedd godi lle mae gwrthdaro buddiannau yn ymddangos hyd yn oed pan nad oes gwrthdaro gwirioneddol yn bodoli. Wrth ystyried gwrthdaro buddiannau posibl, mae'n bwysig ystyried sut y gallai eraill ei ganfod, ac a allai eich buddiannau arwain at ganfyddiad o ragfarn, hyd yn oed os nad oes un yn bodoli.

11 Gall gwrthdaro buddiannau godi mewn nifer o amgylchiadau gwahanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

11.1 Rolau neu ddiddordebau proffesiynol.

11.2 Buddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol.

11.3 Buddiannau anariannol neu bersonol.

11.4 Gwrthdaro teyrngarwch oherwydd eich rôl neu gysylltiad â sefydliad neu berson arall, er enghraifft eich cyflogwr, corff arall rydych yn aelod neu’n Ymddiriedolwr ohono neu os oes gan un o aelodau’ch teulu rôl neu fuddiant a allai ddylanwadu neu gael ei weld i ddylanwadu ar eich penderfyniadau fel aelod o Gyngor yr NMC.

12 Mae'n hanfodol bod gan ein holl randdeiliaid hyder yn annibyniaeth a didueddrwydd y Cyngor cyfan ac aelodau unigol y Cyngor. Gallai hyd yn oed y canfyddiad o wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag aelod o'r Cyngor fod yn niweidiol i hyder y cyhoedd yn y Cyngor. Mae'n hanfodol felly bod y gwrthdaro posibl hyn yn cael ei ddatgan a'i archwilio, yn yr un modd ag unrhyw wrthdaro gwirioneddol.

**Datgan gwrthdaro buddiannau**

**13** Os ydych yn ansicr a yw eich amgylchiadau'n achosi gwrthdaro posibl, **codwch hyn cyn i chi gwblhau'r ffurflen Wybodaeth gyda James McLeod, yn jmcleod@hunter-healthcare.com neu ar 07842 424530**. Bydd James yn ceisio cyngor gan Ysgrifennydd y Cyngor yn yr NMC, os oes angen.

**14** Gall unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig a nodir gennych chi neu gan yr NMC gael eu harchwilio gyda chi ar unrhyw adeg, gan gynnwys gan y Panel Dethol mewn unrhyw gyfweliad terfynol.

**15** Ystyrir pob achos yn unigol. Os cewch eich rhoi ar restr fer am gyfweliad, bydd y Panel Dethol yn archwilio gyda chi i ba raddau y gallai’r gwrthdaro effeithio ar eich gallu i gyfrannu’n effeithiol ac yn ddiduedd i’r Cyngor a sut y gellid ymdrin â hyn, pe byddech yn cael eich penodi. Fodd bynnag, os bydd y Panel, yn dilyn y drafodaeth gyda chi, yn credu bod y gwrthdaro’n rhy fawr ac y byddai’n bwrw amheuaeth ar gywirdeb y Cyngor neu’r penodiad, gallant ofyn i chi dynnu eich cais yn ôl.

**16 Os oes gennych unrhyw amheuon, dywedwch wrthym am unrhyw beth y teimlwch a allai achosi gwrthdaro, neu wrthdaro posibl, gan roi cymaint o wybodaeth â phosibl, fel y gallwn drafod hyn gyda chi. Mae bod yn agored yn allweddol.**

**Blwch A: Enghreifftiau o wrthdaro sy'n debygol o'ch atal rhag bod ar y Cyngor ar yr un pryd â dal y rôl hon**

***Os ydych ar fin symud o'r swydd hon cyn dyddiad eich penodi'n aelod o'r Cyngor (Mai 2024 yn ôl pob tebyg), yna gallai hyn ddod o fewn y rhestr y gellir ei rheoli ym Mlwch B isod***.

*Sylwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.*

- Rydych chi ar hyn o bryd neu ar fin gweithio'n uniongyrchol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Gogledd Iwerddon neu Lywodraeth yr Alban; unrhyw un o'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio mewn unrhyw wlad, neu ar gyfer cyrff y mae eu cylch gwaith yn gysylltiedig yn agos â chylch gwaith yr NMC megis hyfforddiant ac addysg gweithlu GIG Lloegr, Addysg GIG yr Alban, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, neu'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, Gogledd Iwerddon. Gallai hyn fod yn amser llawn, yn rhan-amser neu mewn rôl ymgynghorol.

- Rydych chi ar hyn o bryd neu ar fin bod ar gorff llywodraethu/Bwrdd y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Unsain, Unite neu unrhyw gorff neu undeb arall sy'n cynrychioli'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. **Sylwch nad yw hyn yn cynnwys aelodaeth arferol o gorff proffesiynol neu undeb**.

- Rydych chi ar hyn o bryd neu ar fin cael eich cyflogi gan neu'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei amcanion yn gwrthwynebu neu'n gwrthdaro â rôl a diben yr NMC.

- Rydych chi  ar hyn o bryd, neu ar fin bod yn aelod o, neu'n gyflogedig gan neu'n gysylltiedig ag, unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o 'felin drafod' neu sefydliadau lobïo.

- Rydych chi ar hyn o bryd yn gadeirydd panel neu aelod panel apeliadau addasrwydd i ymarfer neu gofrestru NMC. ***Pe byddech chi'n cael eich penodi'n aelod o Gyngor yr NMC byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.***

- Rydych chi ar hyn o bryd yn ymwelydd cofrestredig Sicrhau Ansawdd (SA) (unigolyn a benodwyd gan ein partner darparu Sicrwydd Ansawdd, Mott MacDonald, ar ran yr NMC i gynorthwyo gyda sicrhau ansawdd gweithgarwch addysg). ***Pe byddech chi'n cael eich penodi'n aelod o Gyngor yr NMC byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.***

- Rydych ar hyn o bryd yn Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg (LME) neu chi yw'r gohebydd swyddogol a enwir gyda'r NMC wedi'i leoli mewn Sefydliad Addysg Cymeradwy sy'n darparu addysg bydwreigiaeth a/neu nyrsio cyn cofrestru, ac yn cael eich cyflogi ganddo. ***Pe byddech chi'n cael eich penodi'n aelod o Gyngor yr NMC byddai'n rhaid i chi roi'r gorau i hyn.***

**Blwch B: Enghreifftiau o wrthdaro buddiannauy gellir ei reoli, ond y dylid ei ddatgan a'i archwilio**

*Sylwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.*

- Rydych wedi gweithio'n ddiweddar, neu ar fin rhoi'r gorau i weithio, yn uniongyrchol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban; unrhyw un o'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio mewn unrhyw wlad, neu ar gyfer cyrff y mae eu cylch gwaith yn gysylltiedig yn agos â chylch gwaith yr NMC megis hyfforddiant ac addysg gweithlu GIG Lloegr, Addysg GIG yr Alban, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, neu'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, Gogledd Iwerddon. Gallai hyn fod wedi bod yn amser llawn, yn rhan amser neu mewn rôl ymgynghorol.

- Rydych yn ddiweddar wedi, neu ar fin rhoi'r gorau i fod wedi'ch cyflogi gan neu'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei amcanion yn gwrthwynebu neu'n gwrthdaro â rôl a diben yr NMC.

- Rydych yn ddiweddar wedi, neu ar fin rhoi'r gorau i fod yn aelod o, neu wedi'ch cyflogi gan, neu'n gysylltiedig ag, unrhyw sefydliad neu gorff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o 'felin drafod' neu sefydliadau lobïo.

- Rydych wedi bod yn gadeirydd panel neu aelod panel apeliadau addasrwydd i ymarfer neu gofrestru NMC yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

- Yn ddiweddar, rydych wedi bod yn ymwelydd cofrestredig Sicrhau Ansawdd (SA) (unigolyn a benodwyd gan ein partner darparu Sicrwydd Ansawdd, Mott MacDonald, ar ran yr NMC i gynorthwyo gyda sicrhau ansawdd gweithgaredd addysg).

- Rydych wedi/yn cael eich cyflogi'n ddiweddar, ar hyn o bryd neu'n fuan gan brifysgol neu sefydliad addysg sy'n darparu rhaglenni addysg nyrsio a/neu fydwreigiaeth.

- Rydych wedi/yn cael eich cyflogi'n ddiweddar, ar hyn o bryd neu'n fuan gan sefydliad neu gorff sy'n cyflogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol cofrestredig, er enghraifft ymddiriedolaeth GIG, bwrdd iechyd GIG, neu ysbyty preifat.

- Rydych yn ddiweddar, ar hyn o bryd neu ar fin wedi/yn dal swydd, er enghraifft fel aelod Anweithredol o'r bwrdd, mewn unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â gofal iechyd yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys ymddiriedolaethau GIG, byrddau iechyd y GIG, cyrff rheoleiddio, cymdeithasau proffesiynol, cymdeithasau dysgedig, colegau brenhinol ac undebau llafur ac elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau gwirfoddol.

- Rydych wedi bod, neu ar hyn o bryd, yn ymwneud ag unrhyw ddelio busnes neu drafodion ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw gontract i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r NMC, neu i unrhyw berson neu sefydliad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r NMC.

- Mae gennych berthynas neu gysylltiadau personol agos, yn y gorffennol neu'r presennol, ag unrhyw aelod presennol o Gyngor yr NMC, Aelod Cyswllt, aelod o'r Panel Dethol neu ag aelodau o dîm Gweithredol yr NMC.

- **Unrhyw fuddiant arall a allai fod yn berthnasol ac nad yw wedi'i gynnwys yn yr hyn uchod**. Gallai hyn gynnwys unrhyw gysylltiad drwy aelodau agos o’r teulu neu gymdeithion a allai arwain arsylwr teg, ar ôl ystyried y ffeithiau, i ddod i’r casgliad y gallai buddiant o’r fath ddylanwadu ar farn unigolyn mewn materion sy’n berthnasol i weithgarwch yr NMC.

**Tachwedd 2023**
**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**